ASESIAD A CHYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU

CYFARFOD Y GRŴP TECHNEGOL RHANBARTHOL

Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar ddydd Gwener 25ain Mehefin 2004 am 2.00pm
Canolfan Ddinesig Penllergaer

Yn bresennol

Geoff White (Cadeirydd)	CBS Castell-nedd Port Talbot
Ceri Morris	CBS Castell-nedd Port Talbot
Vaughan Thomas	CBS Castell-nedd Port Talbot
Clifford Parish	Dinas a Sir Abertawe
Audrey Evans	Asiantaeth yr Amgylchedd (De-Orll. Cymru)
Neil Bateman	Cyngor Sir Caerfyrddin
Sue Martin	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Andy Rees	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Ruth Brown	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Nick Oakes	Cyngor Sir Ceredigion
Philip Marks	CYLCH
Miranda Lewis	Asiantaeth yr Amgylchedd

1. **Ymddiheuriadau**

Howell Beaton	CBS Castell-nedd Port Talbot
Carol Williams	CS Penfro / APCAP
Steve Bool	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont
Cathy O'Brien	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Graham Dorrington	Cyngor Sir Ceredigion
Dave Harries	Cyngor Sir Penfro
Alison Thomas	Dinas a Sir Abertawe

2. **Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Technegol a gynhaliwyd ar Ebrill 16eg 2004**

Cytunwyd eu bod yn gofnod cywir ac ni chodwyd unrhyw faterion.

3. **Adendwm y CGRh:**

- **Cynnydd yng ngwaith Asiantaeth yr Amgylchedd**

Rhoddodd ML gyflwyniad ar ddewis safleoedd tirlenwi posib gan ddefnyddio GIS. Bydd copi o'r cyflwyniad yn cael ei ddosbarthu ac felly ni fydd yn cael ei ailadrodd. **Gweithredu**: ML / CM.

Dilynwyd gan drafodaeth a nodwyd y prif bwyntiau canlynol.

- Pwysleisiwyd mai drafft cychwynnol yw'r mapiau ac mae angen ychwanegu un neu ddwy haen i'r model o hyd;
- Mae'r mapiau drafft cyfredol wedi cael eu cynhyrchu gan ddefnyddio meini prawf o fewn byffer safonol o 1 filltir. Mae angen i'r GTRh nodi'n gywir bellter angenrheidiol y byffer;
- Bydd unrhyw newid i'r byffer hwn yn effeithio ar y map cyfansawdd;
- Lle bo'n berthnasol, dylai'r pellterau lleiaf posibl fod yn gymwys (h.y. 250 metr). **Cytunwyd**;
- Cynnwys safleoedd tirlenwi presennol o fewn y model. **Cytunwyd**;
- Cynnwys pellterau lleiaf posibl a nodwyd dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. **Cytunwyd**.

Gweithredu: GW i'w sefydlu;

- Mae'n bosib y bydd gofyn i'r GTRh roi pwys i'r meini prawf (h.y. blaenoriaethu'r meini prawf o ran pwysigrwydd); ac
- O ran y raddfa amser, **cytunwyd** y byddai'r map cyfansawdd a'r adroddiad sy'n mynd gydag ef yn cael eu cynhyrchu cyn cyfarfod nesaf y GTRh. **Gweithredu**: ML

4. **Agenda ar gyfer y Fforwm Aelodau ar 6ed Gorffennaf**

Er mwyn caniatáu cynnydd pellach, cytunwyd y dylid gohirio cyfarfod nesaf y Fforwm Aelodau, yn amodol ar gydsyniad y Cadeirydd. **Gweithredu**: GW i gysylltu a'r Cyng. Palmer.

5. **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Cytunwyd y dylid cynnal y cyfarfod nesaf am 10.00am, dydd Gwener 30ain Gorffennaf yng Nghanolfan Ddinesig Penllergaer.

6. **Unrhyw Fater Arall**

Cadarnhawyd bod y papur ar Wastraff Peryglus a ddosbarthwyd yn ddiweddar i Aelodau wedi cael ei dderbyn.

Adroddodd GW i cyfarfod gael ei gynnal gyda LlCC i drafod y problemau sy'n dal i fod gyda'r Contract Gwastraff Rhanbarthol. Cadarnhaodd SM iddynt geisio cyngor y tîm cyfreithiol wedi'r cyfarfod a bod gobaith y bydd y sefyllfa'n cael ei datrys yn fuan .

Amlygwyd y ffaith i 'Nodyn Egluro Polisi' ynghylch CDUiau a Pholisïau Gwastraff gael ei ddosbarthu'n ddiweddar gan LlCC.